# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 8 Mai 2012** |
| Amser: | **09:10 - 11:00** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400001_08_05_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Lindsay Whittle** |
| Tystion: | **Jon Rae, CLLC**<br>**Mari Thomas, CLLC**<br>**Huw Vaughan Thomas, Auditor General for Wales, Wales Audit Office**<br>**Mike Usher, Group Director - Financial Audit, WAO** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2. Rheoli grantiau yng Nghymru - tystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC, a Mari Thomas, Swyddog Polisi (Cyllid), CLlLC i'r cyfarfod.

2.2 Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd CLlLC ar y canlynol:

- I ddarparu eglurhad o'r angen i hepgor taliadau diswyddo (a'r defnydd o'r hepgoriadau hyn) pan fo staff awdurdodau lleol yn gweithio ar gontractau tymor penodol; ac
- Eglurhad ynghylch a yw angen o'r fath yn deillio o Reoliadau Ewropeaidd.

## 3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn:

Eitemau 4 i 7.

## 4. Ystyried y dystiolaeth ynghylch rheoli grantiau yng Nghymru

4.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth ynghylch ei ymchwiliad i reoli grantiau yng Nghymru.

## 5. Ystyried ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drafft

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drafft, a fydd yn cael ei anfon at y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ cyn hir.

## 6. Ymdrin â gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, a gafodd ei gan y Pwyllgor ar 24 Ebrill 2012.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor i aros am ganlyniad ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ofal preswyl i bobl hŷn (sy'n cynnwys ystyriaeth o effeithiolrwydd y drefn reoli bresennol) cyn dod i benderfyniad ynghylch cymryd camau pellach o ganlyniad i ohebiaeth yr Archwilydd Cyffredinol.

## 7. Ystyried ymweliad â Chynulliad Gogledd Iwerddon

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ymweliad arfaethedig â Chynulliad Gogledd Iwerddon.

7.2 Gofynnodd y Pwyllgor i'r Clerc baratoi cynigion manylach ar ei gyfer (gan gynnwys dyddiadau).

## 8. Papur i'w nodi

8.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion ei gyfarfod ar 1 Mai 2012.

**TRAWSGRIFIAD**

Trawsgrifiad